# JOSEFF o Arimathea

www.lambsongs.co.nz gan Jill Kemp (cyf. Dafydd Timothy) Lluniau: Richard Gunther




**Roedd Joseff yn aelod pwysig o'r cyngor Iddewig ac yn ddisgybl cudd i Iesu. Doedd e ddim am i arweinwyr Iddewig eraill wybod ei fod yn credu, neu fase fe'n colli ei waith, neu'n waeth.**



**Yn ei amser sbâr, bu Joseff yn torri twll i wneud ogof yn ochr craig fawr, gan greu bedd i'w gladdu pan fyddai'n marw. Wrth iddo gloddio, meddyliodd am y Meseia roedd Duw wedi'i addo.**



**Roedd yn credu mai Iesu oedd yr un oedd wedi'i addo. O bell, gwyliodd Joseff a'i ffrindiau yn drist, wrth i Iesu farw ar y groes. Cafodd Joseff syniad! Fe all Iesu gael ei gladdu yn y bedd newydd!**




**Gan wybod y byddai'n rhaid iddo frysio gan y byddai'r Saboth, dydd o orffwys, yn dechrau'n fuan, aeth yn ddewr at Peilat i ofyn a all yntau osod Iesu i orwedd yn ei fedd newydd gerllaw. Cytunodd Peilat.**



**Cymerodd Joseff a Nicodemus gorff Iesu a'i lapio'n dyner mewn llieiniau a'r perlysiau persawrus, myrr ac alws, roedd Nicodemus wedi diod gydag e, gan mai dyna oedd arferiad claddu yr Iddewon.**



**Gwyliodd Mair wrth i'r ddau ddyn rholio'r garreg drom dros geg yr ogof i selio'r bedd ar gau. Fe fyddai hi a'r Mair arall yn dod ar ôl cyfnod gorffwys y Saboth i olchi corff Iesu.**



**Dywedodd Iesu y byddai'n atgyfodi o'r marw ar y trydydd dydd, felly, erfyniodd y Phariseaid ar Peilat i sicrhau fod y bedd yn cael ei warchod tan hynny. Cytunodd. Rhoddodd milwyr sêl ar y drws a sefyll yno yn gardio.**



**Ar y trydydd dydd digwyddodd daeargryn mawr ac fe gododd Iesu o farw'n fyw. Gan nad oedd erioed wedi gwneud drwg (pechu), doedd gan farwolaeth ddim gafael arno. Mae maddeuant i bwy bynnag sy'n credu yn yr Iesu sydd wedi atgyfodi.**